


Beibl i Blant yn cyflwyno



Samson,
dyn cryf,
dyn Duw



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Janie Forest; Alastair Paterson
addaswyd gan: Lyn Doerksen
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org


BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2021 Bible for Children, Inc.

Trwydded: mae gennych hawl i gopio neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

1

Amser maith yn ôl, roedd dyn o'r enw Manoa yn byw
yng ngwlad Israel. Doedd dim plant ganddo fe a'i
wraig. Un diwrnod, daeth Angel yr
Arglwydd at Mrs Manoa a dweud,
"Rwyf ti'n mynd i gael babi
arbennig iawn."




2


Rhannodd y newyddion da gyda'i gŵr. Gweddiodd Manoa, "O fy Arglwydd...wnei di anfon yr angel yn ôl yma. Dysga ni beth sy raid i ni ei wneud gyda'r bachgen ar ôl iddo gael ei eni."



3



Dyweddodd yr Angel, "Rhaid peidio torri ei wallt, dydy e ddim i yfed diod feddwol, na bwyta rhai bwydydd arbennig. Mae Duw wedi dewis y bachgen hwn i fod yn farnwr. Fe fydd yn arweinydd i Israel."



4




Roedd pobl Dduw angen help. Roedden nhw'n anwybyddu Duw, ac roedd eu gelynion, y Philistiaid, yn eu bwlio. Ond clywodd Duw eu gweddi ac anfonodd y babi hwn i'w helpu - hwn fyddai'r dyn cryfaf yn y byd.

5

Felly cafodd y bachgen ei eni. Ei enw oedd Samson. Tyfodd y plentyn, ac roedd Duw yn ei fendithio. Dyma ysbryd yr Arglwydd yn dechrau ei sbarduno. Daeth yn gryf iawn. Un diwrnod, dyma fe'n lladd llew gyda'i ddwylo yn unig!



6



Yn nes ymlaen, blasodd Samson fêl yr oedd haid o wenyn wedi ei wneud ar ôl adeiladu nyth yng nghorff y llew. Dyma fe'n creu pôt: "Daeth bwyd o'r bwytawr; rhywbeth melyn o'r un cryf."


7



Doedd neb yn gwybod yr ateb - ond rhannodd gwraig newydd Samson (un o'r Philistiaid) yr ateb gyda'i ffrindiau.


8

Gwylltiodd Samson yn fwy fyth pan wnaeth y Philistiaid roi ei wraig yn wraig i'w ffrind gorau. Roedd e am dalu nôl. Ond sut? Yn gyntaf, daliodd Samson 300 o llwynogod. Yna rhwymodd nhw wrth eu cynffonau a rhoi fflaglau yn eu cynffonau.




9

Yna, gollyngodd Samson y llwynogod yn rhydd yng nghaeau yd y Philistiaid!




10

Roedd y Philistiaid am dalu'r pwyth yn ôl. Gadawodd Samson iddyn nhw ei ddal a'i glymu. Roedd y Philistiaid am ei ladd.



11

Ond daeth Ysbryd yr Arglwydd ar Samson. Torrodd yn rhydd o'r rhaffau. Gafaelodd mewn asgwrn gêrn asyn oedd heb sychu a lladdodd 1000 o'i eilynion.



12

Dechreuodd y Philistiaid chwilio am Samson. Un noson, daethant o hyd iddo mewn dinas. Cafodd y giatiau eu cloi. Ond cerddodd Samson allan - yn cario'r giatiau ar ei gefn!



13

Ond dyma Samson yn siomi Duw. Roedd Duw yn gwneud Samson yn gryf, ond roedd yn rhaid iddo fod yn ufudd i Dduw. Un diwrnod, rhannodd Samson gyfrinach ei gryfder gyda Delila, merch oedd yn ysbïo dros y Philistiaid.




14




Ymosododd y milwyr ar Samson yn ystafell wely Delila. Fe wnaeth Samson ymladd yn galed - ond roedd wedi colli ei gryfder. Cafodd ei ddallu gan ei elynion.

15




Yn ddall ac yn wan, gweithiodd Samson fel caethwas i'r Philistiaid. Roedden nhw'n gwneud hwyl am ben gwas Duw ac yn chwerthin arno.

16




Cynhaliodd y Philistiaid wledd. Dyma nhw'n canmol eu duw, Dagon, oedd ar ffurf pysgodyn, am roi Samson yn eu gfael. Fe wnaethon nhw ddathlu yn nheml Dagon, ac yna galw ar Samson i roi sioe iddyn nhw.

17




Gadawodd y bachgen oedd yn tywys Samson iddo bwysu yn erbyn y pileri oedd yn dal to'r deml i fyny. Roedd 3000 o Philistiaid ar ben y to, a llawer iawn yn y deml ei hun - roedd pawb yn chwerthin ar Samson.

18



Ond roedd gwallt Samson wedi dechrau ailgyfu yn y carchar. Dyma fe'n gweddio, "O, ARGLWYDD Dduw, gwna fi'n gryf dim ond un waith eto. Gad i mi ddial arnyn nhw am dynnu fy llygaid i!"

19



Oedd Duw am wneud Samson yn gryf eto? OEDD! Fyddai Samson yn gallu gwneud yr amhosib? BYDDAI! Dyma fe'n gwthio'r pileri mawr, a syrthiodd y deml i'r llawr. Cafodd miloedd o'r Philistiaid eu lladd - a Samson hefyd!

20

Samson, dyn cryf, dyn Duw

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Barnwyr 13-16

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130


21

14



60

22



Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol.
Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16

23